# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2100 |
| --- | --- |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 03/03/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd Joanna Wilkins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Lynette Jones (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Anne-Louise Clark (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| Item ID | 2196 |
| --- | --- |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2197 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Paulsen, P. Baldwin, M. Moore, J.P. Morgan, L. Parsons, J. Wilkins a D. Wilkshire.<br><br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2198 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2199 |
| Item Title | Cofnodion y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2201 |
| Item Title | Strategaeth Cyfalaf 2020/2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar y Strategaeth Cyfalaf yn dilyn yr adolygiad blynyddol i'w fabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021, cyn ei argymell yn ffurfiol i'r Cyngor.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Cyfalaf a ddiweddarwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2202 |
| Item Title | Adolygiad Pontio'r Bwlch – Diweddaru Defnydd Strategol o Grantiau – Grant Plant a Chymunedau |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i roi diweddariad yng nghyswllt adolygiad Pontio'r Bwlch ar y defnydd strategol o grantiau gyda ffocws ar gyfnod cyntaf y Grant Plant a Chymunedau. |

| | |
|---|---|
| | Siaradodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo, yn cynnwys manylion ffrydiau gwaith penodol.<br><br>Holodd Aelod os byddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer rhannau o'r fwrdeistref nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhaglen Dechrau'n Deg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod Gweinidog Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai cyllid ychwanegol ar gael, fodd bynnag cynhelir prosiect peilot mewn ardal ehangach a chyflwynir y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru i weld os gellid ymestyn hyn ar draws Blaenau Gwent.<br><br>Croesawodd yr Aelod y derbyniwyd £23m o gyllid grant ond roedd ganddo bryderon am barhad y cyllid hwnnw ar ôl etholiadau Senedd Cymru yn 2020/21. Dywedodd fod rhannau o amddifadedd ym Mlaenau Gwent nad ydynt wedi eu cynnwys.<br><br>Yng nghyswllt blaenoriaethau'r Cyngor, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod blaenoriaethau'r Cyngor yn bwydo i'r Cynllun Corfforaethol ac y gwnaed gwaith helaeth am asesu llesiant i gynhyrchu cynllun cynhwysfawr ar gyfer yr ardal.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am grantiau, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y cafodd y Gronfa Gofal Integredig effaith fawr ar Flaenau Gwent. Esboniodd fod rhai grantiau yn anhyblyg a bod meini prawf y grant yn cynnwys lefelau amddifadedd, monitro defnydd grantiau a gwerth am arian ac yn gysylltiedig gyda'r hyn mae cymunedau ei angen. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod cyllid grant yn mynd i'r lleoedd cywir.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor Craffu:-<br>• yn ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma a chamau nesaf arfaethedig yr adolygiad ar y defnydd strategol o grantiau;<br>• yn ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma ar y grant Plant a Chymunedau;<br>• yn derbyn diweddariadau pellach ar yr adolygiad o ddefnydd strategol o adnoddau a'r Grant Plant a Chymunedau fel rhan o flaenraglen gwaith y Pwyllgor; a<br>• bod y Grŵp Llywio'r Grant Plant a Chymunedau yn parhau i oruchwylio a gwerthuso'r rhaglen cyflenwi a rhoi adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddir adroddiad bob chwe mis i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol. |

| Item ID | 2203 |
|---|---|
| Item Title | Rheolaeth Trysorlys – Datganiad Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi MRP 2020/2021 (yn cynnwys Dangosyddion |

| | |
|---|---|
| | Darbodus) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar y Strategaeth Trysorlys, y Strategaeth Buddsoddi a'r polisi ar Isafswm Darpariaeth Refeniw (yn cynnwys dangosyddion darbodus) i'w fabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, cyn ei argymell yn ffurfiol i'r Cyngor.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod os gellid gwneud newidiadau i'r Datganiad Strategaeth Trysorlys unrhyw adeg o'r flwyddyn. Atebodd y Prif Swyddog Adnoddau y gwneir newidiadau fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond cadarnhaodd y gellir gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn ac yr aiff drwy'r broses Craffu a Chyngor arferol. Dywedodd y Swyddog y cafodd rhai newidiadau brys eu hysbysu i'r Cyngor ar ôl iddynt ddigwydd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau'n ystyried y Datganiad Blynyddol ar Strategaeth Trysorlys, y Strategaeth Flynyddol ar Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Isafswm Darpariaeth Cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddynt (Atodiad A) ac nad ydynt yn ystyried unrhyw ddiwygiadau, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo'n ffurfiol. |

| Item ID | 2204 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau, Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Phartneriaethau a'r Arweinydd Proffesiynol dros Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg a gyflwynodd Gynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020-24.<br><br>Siaradodd yr Arweinydd Proffesiynol dros Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Hwn oedd trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gylch 4 blwyddyn.<br><br>Soniodd y Cadeirydd am y Gweithgor Aelodau a'r cynnydd cadarnhaol a wnaed i gefnogi datblygu amcanion a chynllun cydraddoldeb.<br><br>Canmolodd Aelodau waith ymgysylltu rhagorol yr Uwch Gyngor Plant a'r Fforwm Ieuenctid.<br><br>Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau yr Aelodau mai 8 Mawrth yw Diwrnod Rhyngwladol Menywod a bod y Tîm Cydraddoldeb yn cysylltu gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch. Cafodd gwaith ymgysylltu pwysig hefyd ei wneud gyda'r Maer Ieuenctid oedd yn |

| | |
|---|---|
| | paratoi adroddiad Delwedd Corff Cadarnhaol i gefnogi'r ymgyrch genedlaethol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau'n cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ac argymell ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor. |

| Item ID | 2205 |
|---|---|
| Item Title | Perfformiad Absenoldeb Salwch Gweithlu Gwasanaethau Corfforaethol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau pwyllgorau craffu penodol i graffu ar a herio perfformiad absenoldeb salwch y portffolio perthnasol a'r camau gweithredu a gynigir ar gyfer gwella.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am Gymorth Busnes, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y dynodwyd fod Cymorth Busnes yn 'fan poeth' gyda 643 diwrnod o salwch. Cynhaliwyd archwiliad rheolaethol llawn o absenoldeb salwch ac mae rheolwyr yn dilyn y Polisi Presenoldeb i'r llythyren. Darparwyd staff llanw ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor, o dros un mis, gyda staff yn 'camu lan' neu gan weithwyr asiantaeth. Ychwanegodd y Swyddog fod prif achos absenoldeb salwch o fewn y gwasanaeth Cymorth Busnes yn gysylltiedig â straen. Mae polisïau yn eu lle i gefnogi staff ynghyd â'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.<br><br>Dywedodd Aelod fod 94% o staff yn mynychu'r gwaith yn gyson ac yn gwneud gwaith da. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod Gwasanaethau Corfforaethol o dan y targed ar gyfer Chwarter 1 a hefyd Chwarter 2.<br><br>Mynegwyd pryderon y gall staff fod yn dioddef o straen oherwydd materion capasiti. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y cynhelir asesiadau risg yng nghyswllt unrhyw newidiadau i wasanaethau a bod Cofrestr Risg yn ei lle fel y gellid dynodi a chynyddu unrhyw broblemau os oes angen.<br><br>Holodd Aelod am nifer y staff sy'n adrodd yn wael yn Gwasanaethau Corfforaethol. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol, allan o tua 200 aelod o staff yn y maes hwn, fod 82 wedi adrodd yn wael am Chwarteri 1 a 2 eleni. Mae gwella presenoldeb yn parhau'n flaenoriaeth sylweddol i'r Cyngor ac mae gan bob gweithiwr cyflogedig ac arweinydd rôl i'w chwarae wrth helpu i ostwng lefelau absenoldeb salwch.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo'r adroddiad a'r trefniadau arfaethedig i gefnogi'r gwelliant mewn presenoldeb. Gan mai hwn |

| | |
|---|---|
| | oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yng nghylch Pwyllgorau 2019/20, diolch y Cadeirydd i Aelodau am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. |